# CRYNODEB CYFARFOD

## Cyngor Cymuned Llanycil

## Cyfarfod Nos Fawrth, Mawrth 14eg 2024 am 8.00 o'r gloch yn Neuadd Maesywaen.

Presennol:  Huw Charles (cadeirydd), Euros Puw, Gwynfryn Williams, Geraint Jones, Arwel Davies, Rhys Jones, Cyng.Elwyn Edwards a'r clerc.
Ymddiheuriadau: Rhys Richards

i) Darllen a chadarnhau'r Cofnodion (Mawrth 12fed 2024) - **Cymeradwywyd.**

ii) Datgan Buddiant **– Euros Puw, gweler y cais cynllunio isod.**

iii) Materion yn codi o'r Cofnodion.
a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.

### iv) Gohebiaeth

a) Cyngor Gwynedd.
i) Fframwaith Adfywio Ardal Ni – Cynllun Adfywio Lleol – **cytunodd Arwel Davies a Euros Puw fynychu'r cyfarfod.**
ii) Rhybuddion Cau Ffyrdd
iii) Arolwg Iaith.

b) Parc Cenedlaethol.
i) Rhybudd cyfarwyddyd Erthygl 4 ar gyfer rheoli'r defnydd o dai preswyl.
ii) Dod yn Aelod o'r Awdurdod.

c) Un Llais Cymru.
i) Contract cyflogaeth newydd i staff - **cytunwyd i'w adolygu yn nes ymlaen yn y flwyddyn.**
ii) Adroddiad Blynyddol: Amserlen Camau.

ch) Amrywiol.
i) Awdurdod Tan ac Achub Gogledd Cymru - lansio ymghynghoriad cyhoeddus ar barhau i atal ac ymateb i argyfyngau
ii) Cyngor Tref Nefyn – cais am gefnogaeth.
iii) Ambiwlans Awyr Cymru – diweddariad.
iv) Cwmni Pum Plwy Penllyn – anghenion trafnidiaeth lleol.
v) Dwr Cymru – gwahoddiad i cyfarfod safle gwaith Llyn Celyn. **Cytunodd Euros Puw, Huw Charles a Geraint Jones i fynychu.**

### v) Ceisiadau Cynllunio.

NP5/72/248A - Adeiladu un uned gwyliau hunanarlwyo tanddaearol newydd ynghyd a gosod tanc septig. Tir ger Boch y Rhaidr, Arenig **(Euros Puw yn datgan buddiant ac yn gadael yr ystafell yn ystod y drafodaeth).**
NP5/72/253 - Codi estyniad unllawr. Fedw'r Gôg, Frongoch.

**Nid oedd y cynghorwyr yn ymwybodol o unrhyw wrthwynebiad lleol.**

**vi) Materion Ariannol**
a) Archwiliad Blynyddol.
**Eglurodd y Clerc fod cyfrifon 2023-24 yn destun archwiliad llawn ac roedd trefniadau mewn lle i anfon y dogfennau perthnasol i'r archwilwyr mewnol ac yn ddiweddarach i Archwilio Cymru.**

b) Taliadau.
**Cytunwyd i dalu – Zurich (yswiriant).**

c) Ceisiadau ariannol.
St John's Ambulance, Eisteddfod Llangollen a Kids Cancer Charity **- cytunwyd i'w trafod gyda gweddill o'r ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.**

**vii) Materion lleol.**
**a) Cytunwyd i anfon y cwynion i'r adrannau perthnasol.**

**CYTUNWYD I GYNNAL Y CYFARFOD NESAF AR NOS FAWRTH MEHEFIN 11eg YN NEUADD MAESYWAEN.**